

## Yr Athro Steve Jones yn ymweld â bro ei gyndeidiau

Bore dydd Mawrth,  
8 Medi, ar Radio 4  
darlledwyd rhaglen *The  
House I Grew Up In* yn  
olrhain ymweliad yr  
Athro Steve Jones, y  
genetegydd byd-enwog,  
â'r ardal pan ymwelodd â  
Chapel y Garn, lle bu ei  
hen-daid, y Parch William Morgan, yn un o weinidogion cyntaf y  
capel, a hefyd Bodhywel lle'r ymgartrefai ei daid a'i nain, Mr a Mrs  
John Morgan, am gyfnod o ganol 1940au hyd at y 1960au.



Cafwyd cyfle iddo gyfarfod â rhai o'i deulu, sef Nest Davies o'r Dolau  
a'r Arglwydd Elystan-Morgan, ynghyd â Llinos Dafis a Nerys a Dewi  
Hughes ym Modhywel. Bu'n sôn am ddylanwadau ei deulu arno a  
hefyd yr amgylchedd lleol cyfoethog a ysbrydolodd ei ddi-ddordeb ym  
myd natur a dilyn gyrfa ym maes gwyddoniaeth, a geneteg yn benodol.  
Cofiai am y canu cyfoethog a glywodd yng Nghapel y Garn a'i  
swynodd ac a'i cyfareddodd, ac mae bellach yn ymhyfrydu ym myd yr  
opera. Bu hefyd yng Nghastell Gwallter, a fu'n gyrchfan iddo'n  
blentyn.

### **Swyddogion yr Ofalaeth**

*Cadeirydd:* T. Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, Aberyst-  
wyth, SY23 3JA (01970 880859)

*Is-gadeirydd:* Vernon Jones, Gaerwen, Bow St (01970 828344)

*Ysgrifennydd:* John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth,  
SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Rhagfyr** i:

Mr Dewi G Hughes  
Bod Hywel, Bow St  
(01970 828026)  
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes  
14 Maes y Garn, Bow St  
(01970 828662)  
marian\_hughes@btinternet.com



Cyfres newydd, rhif 9

Hydref 2009



Annwyl ffrindiau,

Mae'n gas gen i orfod aros a disgwyl! Eto, dyna sy'n rhaid ei wneud o dro i dro. Aros am y post neu ddyd y llaeth! Disgwyl am yr adeiladydd i ddod i wneud ychydig o waith ar y tŷ! Disgwyl am y bws i gyrraedd! Aros am rywun i ddychwelyd eich galwad ffôn! Aros eich tro yn y Swyddfa Bost neu yn yr archfarchnad! Aros wedyn mewn rhes o gerbydau ger y goleuadau traffig a chithau ar ras gwyllt i gyrraedd y cyfarfod mewn pryd! Disgwyl am y bore wedi noson hir, ddi-gwsg!

Wrth gwrs, y mae adegau o aros a disgwyl sy'n llawer mwy dwys ac ingol – y pâr ifanc sy'n gorfod disgwyl yn hir am faban; y disgybl neu'r myfyriwr sy'n aros yn betrusgar am ganlyniadau'r arholiadau ysgol neu goleg; y claf sy'n aros yn bryderus i glywed canlyniadau'r profion neu'r diagnosis; y person anabl sy'n disgwyl am ryw wellhad gwyrthiol; y rhai a glwyfwyd yn emosiynol ac sy'n aros am dawelwch meddwl; y bobl mewn gyrfaedd di-ddyfodol sy'n aros am ddihangfa; y rhai a gafodd eu dal mewn priodasau anhapus sy'n aros am ollyngdod neu ryddhad. Ie, yr aros unig hwnnw y cawsom i gyd brofiad ohono mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Aros a disgwyl sydd raid hefyd mewn perthynas â'r Eglwys. Onid ydym fel aelodau yn disgwyl yn barhaus am gynhaeaf ysbrydol yn y tir? Onid ydym yn aros yn amyneddgar am ddyfodiad y Deyrnas? Onid ydym yn disgwyl yn eiddgar am y tywalltiadau nerthol, fel a gafwyd yn y dyddiau gynt? Ond am ba hyd y bydd yn rhaid aros? Wrth i ni edrych ar gyflwr y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ar hyn o bryd, y mae'n ymddangos mai ofer fydd pob disgwyl. Y mae'n anodd credu y cawn ni fyth gynhaeaf. Nid yw'r had a blennir fel petaent yn dwyn ffrwyth. Dirywiad, lleihad, diffyg ymateb – dyna sydd i'w ganfod bron ymhobman. Gwyntoedd anghrediniaeth sydd yn mynnu chwythu drwy'r tir.

Â Colin Morris ymlaen i bwysleisio'r cyfrifoldeb sydd gan y bobl am eu llywodraeth a'r un modd y llywodraeth dros ei phobl. Meddai:

In such trust and mutuality there is great strength. With truly Biblical realism about human nature, Abraham Lincoln put in a nutshell the essence of democracy, 'No one,' he said, 'is good enough to rule another, without that other's consent.'

Ai gadael y cyfan i wleidyddion yw'r ateb? Ble mae ein doethineb yn yr oes sydd ohoni? Ble mae ein hegwyddorion moesol? Ble mae ein cyfrifoldeb? At bwy mae gennym dyletswydd?

Credaf fod pennill o 'Eryn Diolchgarwch' y Parch J Pinion Jones yn crynhoi'n gynnil beth ddylai ymateb Cristion fod mewn sefyllfaoedd o newyn ac ing – nod y gellir ei hymestyn i ystyriaeth o sefyllfa ehangach:

Cofiwn, Arglwydd y Cyfanfyd,  
Am drueiniaid trist a llwyd,  
Am y miloedd ar ymylon  
Angau du, o eisiau bwyd;  
Dyro inni'r ddawn i rannu  
Fel y gwnaethost hyd at graith,  
Rhannu'r bara gyda'n gilydd  
Er ein cynnal ar y daith.

Ac i gloi, mae cyfraniad y Parch Roy Jenkins, Gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaerdydd, i *Thought for the Day* yn addas i'n myfyrdod:

Many people with no time for any formal faith say they admire the ethics of Jesus. Yet from the start of his ministry, he urged his listeners to depend utterly on God in order to live out his teaching. Repent, he said: change your minds and change your ways. And that's a message which hasn't changed.

Crisialir hyn oll gan eiriau pellgyrhaeddol y gerdd 'Rho Dy Law':

Mae 'na ffordd i heddi goncro'r byd,  
Ein harfau ydyw'n dwylo ni sy'n tynnu pawb ynghyd,  
A chariad yw ein grym i danio'r byd.

Mae 'na ffordd i fwydo'r tlawd a'r gwan,  
Mae mynydd bwydydd gennym ni i'w rannu ymhob man,  
Rhag newyn a rhag haint, mae inni ran.

Rho dy law, rho dy law, rho dy law,  
Estyn hi ar draws y môr i'r gwledydd draw,  
A bydd pawb wrth afael dwylo yn troi ymaith ofn a braw,  
Onid brawd a chwaer yw pawb? Rho dy law.

Wedi'r cyfan “**Mae'r holl fyd yn Ei law**” a gall ein dwylo ninnau wneud gwahaniaeth.

*Dewi G Hughes*

**“Mae’r Holl Fyd yn ei Law ...”**

*Dyma ran olaf erthygl a luniwyd yn wreiddiol ar gyfer rhifyn Haf 2008 o ‘Gair o’r Garn’ yn ymwneud â materion amgylcheddol, o safbwynt dyletswydd y Cristion. Noder, felly, fod rhannau o’r erthygl yn cyfeirio at ddigwyddiadau’r cyfnod hwnnw. Hefyd, cadwyd y dyfyniadau yn yr iaith y cawsant eu hysgifennu’n wreiddiol.*

Beth yw ein cyfrifoldeb a’n dyletswydd ni fel Cristnogion tuag at ein cyd-ddyn a’n byd?

Yng nghanol y gofid am gyfalaf ac eiddo materol, profasom yn ddiweddar freuder dynoliaeth yn wyneb grymoedd natur – corwynt yn Burma a daearyn yn China, a sefyllfa ddyngarol drychinebus yn Zimbabwe. Ond yr hyn sy’n ein syfrdanu yw gweld y natur ddynol yn ei hanterth gyda gwleidyddiaeth unbeniaethol am sathru’r gwan er cynnal cyfundrefn lygredig hunangyfiawn. Gwn fod Llywodraeth y Weriniaeth wedi rhoi cymorth mewn i ymateb i’r drychineb yn nhalaith orllewinol China, ond yn Burma a Zimbabwe ymddengys bod anghenion trigolion dan orthrwm yn cael eu distyru er diogelu buddiannau’r llywodraeth sydd mewn grym. Ac eto, sefyllian a wnawn gan edrych o’r cyrion drwy lens technoleg, a botwm y teledu’n medru diffodd ein cydwybod.

Mae geiriau gan John Bell, sy’n adnabyddus fel un o arweinwyr Cymuned Iona ac y clywir ei lais yn fynych ar *Thought for the Day*, yn ein hatgoffa:

Suffering, whether in the body or the body politic is always a mystery. Technical help may relieve pain, but it may require something beyond our practised instincts to bring complete healing.

Yna, dyma’r darlledwr crefyddol Colin Morris yn sôn:

The Bible doesn’t endorse any political system, though the real theologian Karl Barth said that true democracy is a justifiable extension of the thought of the New Testament, and two of the qualities which shine from its pages are humility and wisdom. Unlike a dictatorship which cannot concede it is wrong about anything, a democratic government is capable of admitting the possibility of error. Many of the big decisions a government takes have so many ramifications that it is sometimes only in the light of their consequences that the morality becomes clear. So wisdom is needed to foresee the possible consequences of a decision, and humility to learn from the experience when that wisdom proves fallible.

Ond nid fel hynny y mae’r Arglwydd Iesu yn ei gweld hi. Y mae Ef yn pwysleisio na ddylid fyth digalonni tra ydym yn aros am y cynhaeaf. Un o’i ddamhegion mwyaf treiddgar yw Dameg yr Hedyn Mwstard (Marc 4:30–32). Ynddi cawn hanes yr hedyn bach yn tyfu i fod yn blanhigyn mawr a’i ganghennau yn abl i roi cysgod i greaduriaid lawer. Am hynny, cyfrifoldeb yr Eglwys yw parhau i hau yr had, er gwaethaf y maes anaddawol, gan ystyried fod posibiladau cynhaeaf Duw yn fwy o lawer na disgwyliadau cyfyng dyn.

Byddwn amyneddgar mewn perthynas â dyfodiad y Deyrnas. Parhawn i aros a disgwyl. Cofiw’n y bydd yr hedyn, ar ôl ei hau, yn treulio llawer o amser yn y pridd, o olwg y llygad noeth, yn y tywyllwch. Ond er ei fod o’r golwg, nid yw hynny’n golygu nad yw’n gwneud dim. Yn dawel, ond yn effeithiol, fe ddigwydd rhywbeth i’r hedyn ac ymhen amser fe’i gwelir yn egin ac yn dod allan o’r pridd. Yna, ddydd ar ôl dydd, nos ar ôl nos, wythnos ar ôl wythnos, mis ar ôl mis, fe dyf yr hedyn yn blanhigyn mawr nes bod adar y nefoedd yn medru nythu yn ei ganghennau. Dyna yw breuddwyd fawr y Deyrnas.

Felly, yn ystod ein Cyfarfodydd Diolchgarwch eleni, daliwn ati i obeithio a disgwyl, gan gofio y bydd y cynhaeaf yn siŵr o ddod, ie ...“hyd ganwaith cymaint!” Peidiwn fyth â diystyru gallu deinamig yr hedyn bach. Efallai, ymhen blynyddoedd i ddod, y gwelir ffrwyth ein llafur. Ymddiriedwn yn Nuw i wneud ei waith. Daliwn i gredu yn yr Un a roddodd fywyd yn yr had.


Wrth barhau i hau o hyd, a gwrol  
Wasgaru yr hadyd  
Hyd erwau bro, daw ryw bryd  
Gynaeafu gwyn hefyd.

*W. D. Williams*

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas,  
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

Adroddodd Iesu stori am ffermwr yn hau hadau yn ei gae. Chwilia am 10 gwahaniaeth rhwng y ddau lun o'r heuwr.  
Darllen am yr heuwr yn Luc 8:4-8.



Y dasg y tro hwn yw dod o hyn i 10 gwahaniaeth rhwng y ddau lun a rhoi cylch am bob un ohonyh nhw.


Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **3o Hydref**.

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

\*\*\*\*\*  
\* **Llongyfarchiadau** \*  
\* **i** \*  
\* **Rhys Tanat,** \*  
\* **Y Garn,** \*  
\* **enillydd tasg y** \*  
\* **rhifyn diwethaf.** \*  
\*\*\*\*\*

Does gen i ddim gofod i fanylu ar hanes disglair Coleg y Bala (roeddwn yno hanner canrif yn ôl) nag ar gyfraniad y Prifathro mewn amrywiol feysydd ar wahân i nodi iddo, drwy sefydlu'r *Traethodydd* gyda Roger Edwards ym 1845 (diolch ei fod yn parhau dan olygyddiaeth Dr Brynley Roberts) roi i bobl gylchgrawn a oedd yn trafod amrywiol bynciau ar wahân i ddiwinyddiaeth, pynciau fel gwyddoniaeth a daeareg. "Does dim ond rhaid edrych ar gyfrolau cynnar *Y Traethodydd*," meddai 'nhad yng nghyfraith Harri Williams yn ei gyfrol *Duw, Daeareg a Darwin* (cyfrol berthnasol wrth gofio Darwin eleni) "i weld fod Lewis Edwards wedi lledu'r pyrrh ac ehangu'r gorwelion o 1845 ymlaen."



Ni ddylai'r cam mawr a wnaeth Lewis Edwards â'r Gymraeg na'i driniaeth anfrwdol o Emrys ap Iwan beri inni golli golwg ar ei gyfraniad nodedig fel dysgawdwr, golygydd ac awdur toreithiog. Yn ogystal ag adrodd ei hanes, mae cyfrol Denis Morgan yn tafoli ei gyfraniad i ddatblygiad meddwl Cymru. Ni bu Lewis Edwards yn brin o feirniaid, o'i hynafiaid Methodistaidd yn yr 1830au hyd at Gymry amlwg yn yr 1970au. Mae'r gyfrol yn ei osod yn ei gyddestun, ac yn dadlau fod y feirniadaeth fwy diweddar, gan Bobi Jones yn arbennig, wedi bod yng anghymedrol, yn anghybwys ac yn anghywir. Beth bynnag am ei wendidau, mae Lewis Edwards yn haeddu ei ystyried yn un o lenorion Cymraeg pwysicaf y 19 ganrif.

Os nad oes cymaint o ddarllen ar lyfrau Lewis Edwards erbyn hyn, cofiwn fod pedwar emyn dan ei enw yn *Caneuon Ffydd*, a'n bod yn dal i ganu rhif 66, ei gyfieithiad o emyn da William Cowper, 'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr / yn dwyn ei waith i ben'. Ar ben dau canmlwydd ei eni oedwch wrth ei gofeb o flaen capel Pen-llwyn neu'r un o flaen ei goleg yn y Bala, ac ewch i fynwent Llanycil lle claddwyd ef yng Ngorffennaf 1887, yn ymyl Thomas Charles, tad-cu Jane, ei briod.

*W J Edwards*

### *Lewis Edwards 1809–1887*

Cymwynas ddiweddaraf y Parchg Ddr D. Densil Morgan, Bangor, â'n llenyddiaeth Gristnogol oedd cyhoeddi cyfrol gampus 312 tudalen yn y gyfres 'Dawn Dweud' ar y pregethwr, y diwinydd, y golygydd a Phrifathro Coleg y Bala, y Doctor Lewis Edwards. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ar drothwy cofio'i eni ddwy ganrif yn ôl ar 27 Hydref 1809, yn hynaf o wyth plentyn Lewis a Margaret, fferm Pwllcenawon, Pen-llwyn. Dywed Densil mai "Lewis Edwards oedd pennaf ysgolhaig Cymru'r 19g. Gwnaeth fwy na neb i godi safonau'r Gymru Anghydfurfiol a'i gosod ar seiliau dysg ryngwladol. Trwy ei gysylltiadau â'r Alban, clymodd y Methodistiaid Calfinaidd yn dynn wrth y traddodiad Presbyteriaidd a'u troi o fod yn sect i fod yn gangen braff o'r eglwys fyd-eang. Fel sefydlydd Coleg y Bala a golygydd cyntaf *Y Traethodydd*, llwyddodd i ehangu gorwelion ei gydwladwyr ac asio'u duwioldeb wrth ddiwylliant lletach nag a fu'n gyffredin o'r blaen".

Cafodd Lewis Edwards a'i gyfaill John Phillips, Pontrhydfendigaid, pregethwr nodedig a sefydlydd y Coleg Normal, Bangor, amser caled gan ddau unben Methodistiaid y de, y brodyr Thomas Richard, Abergwaun, ac Ebenezer, Tregaron, a oedd yn chwyrn eu gwrthwynebiad iddynt fynd i goleg yn Llundain. Trafodwyd y mater yn Sasiwn Wystog, Sir Benfro ym 1830 gyda Thomas Richard yn y gadair ac yn dweud: "Nid addysg oedd ei heisiau ar bregethwr ond ymgysegriad a ffydd, porthi balchder a wnâi addysg gyffredinol heb sôn am addysg uwch, ac ni ddylai'r pregethwr ifanc o Ben-llwyn gael syniadau uwch na'i stad ... Clwyfwyd Edwards mor ddwfn nes dechrau wylo a chamodd Edward Jones, gweinidog y Tabernacl, Aberystwyth, i mewn i'w amddiffyn, a chafodd gefnogaeth John Hughes, Pontrobert." Anodd i ni heddiw yw deall y gwrthwynebiad cyfeiliornus. Y profiad cas yma a arweiniodd Lewis i ymroi i'w addysgu'i hun ac agor coleg wedyn i addysgu darpar-weinidogion.

Ar ôl gwrthod mynd ar orchymyn y sasiwn i goleg sectyddol cul yn Belffast, coleg yr oedd John Elias o'i blaid, aeth Lewis i Brifysgol Llundain, ac yn Hydref 1833 aeth yng nghwmni John Phillips i Brifysgol Caeredin. Disgleiriodd y ddau yno a llwyddodd Lewis i raddio mewn tair blynedd yn lle pedair. "Roedd y ffordd yn glir bellach," meddai Densil, "i droi ei freuddwyd o sefydlu ysgol a fyddai'n hyfforddi pregethwyr yn y celfyddydau yn ogystal ag mewn gwybodaeth o'r Beibl yn ffaith. O'r diwedd roedd rhagfarn arweinwyr y de ar fin cael ei threchu. 'Y mae pobl Sir Aberteifi yn honni,' meddai Thomas Edwards, ei frawd, 'mai yno, mewn cyfarfod misol ym Mhen-garn, y dechreuodd yr athrofa, a dywedant i Mr Richard o Dregaron roddi ei gymeradwyaeth uchaf i'r gŵr ieuanc oedd newydd ddychwelyd o Edinburgh o'r ffwrn heb fod sawr y tân arno.'

### **Manylion Cyswllt y Gweinidog:**

***Y Parch Wyn Morris,***

***Berwynfa, Penrhyn-coch,***

***Aberystwyth, SY23 3EW***

***01970 820939***

***berwynfa@btinternet.com***

### ***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

- |              |  |
|--------------|--|
| 3 Hydref:    | Cyfarfod Cenhadol Chwirydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Woodstock, sir Benfro, am 2.30 o'r gloch                |
| 11 Hydref:   | Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad at Gyngor yr Ysgolion Sul a'r NSPCC                |
| 25 Tachwedd: | Pwyllgor Gweithredol ac Ymgynghorol 'Os Mêts'<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch   |
| 7 Rhagfyr:   | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch   |
| 13 Rhagfyr:  | Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch  |
| 25 Rhagfyr:  | Oedfa gymun yr ofalaeth ar fore'r Nadolig<br>yng Nghapel y Garn am 9 o'r gloch<br>(Cynhelir oedfa hefyd yn Rehoboth am 10 o'r gloch) |
| 31 Rhagfyr:  | Gwynos dan arweiniad y Bugail<br>yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m.  |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:

[www.capelygarn.org](http://www.capelygarn.org)

## *'Os Mêts' – Ymlaen i 2009–10*

Fel y gŵyr aelodau'r ofalaeth, sefydlwyd cymdeithas 'Os Mêts' fel menter gydenwadol yng ngogledd Ceredigion i hyrwyddo gwerthoedd a dealltwriaeth Gristnogol ymhlith pobl ieuaic rhwng 11 ac 18 oed drwy weithgarwch, cymdeithasu a chyfeillgarwch, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol cyntaf y gymdeithas ar 9 Medi 2009 ac adroddwyd am ddatblygiadau'r fenter. Mynegwyd gwerthfawrogiad y pwyllgor o gefnogaeth eglwysi'r ofalaeth yn ogystal ag aelodau unigol i'r fenter. Gwerthfawrogir hefyd arweiniad y Bugail, y Parch Wyn Morris, a'i weithgarwch gyda'r ieuencid, ac ef sydd wedi cadeirio'r pwyllgor dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2009–10:

- ◆ Cadeirydd Y Parchedig John Livingstone
- ◆ Is-gadeirydd Ceri Williams
- ◆ Ysgrifennydd Dewi G Hughes
- ◆ Trysorydd Marianne Jones Powell

Trefnir rhaglen amrywiol ar gyfer tymor yr hydref, a hyderir y daw ieuencid y cylch i fwyhau'r gweithgareddau.

Am ragor o fanylion, cysyllter â Dewi G Hughes,  
Bodhywel, Bow Street  
(☎ 01970 828026; e-bost: dewighughes@lineone.net)

I'r gwrthwyneb i'r hyn y mae Sharon King yn ei ddadlau, fe fyddwn i'n honni mai 'rhoi'r adnoddau i anffyddwyr ein diystyru' y byddwn o geisio lledaenu'r math o ddaliadau am y Beibl y mae hi'n eu harddel.

Ceir digon o dystiolaeth mai gŵr boneddigaidd a chwrtais oedd Charles Darwin wrth ddadlau ag eraill am ei ddamcaniaethau. Trueni nad yw'r un ysbryd i'w ganfod heddiw mewn dadleuon ar y materion hyn. Yn hytrach, eithafiaeth a welir yn aml, a hynny o'r ddeutu: o safbwynt crefyddwyr ac anffyddwyr fel ei gilydd. Mae mawr angen ar i'r ddadl gyfoes ar berthynas crefydd a gwyddoniaeth gael ei chynnal mewn ysbryd ymchwilgar, agored a goddefol os yw i daflu goleuni ar rai o gwestiynau mwyaf bywyd.

Yn wir, does dim raid bod crefydd a Darwiniaeth yn groes i'w gilydd. Cyfrol hynod o werthfawr y byddem am dynnu sylw darllenwyr *Gair o'r Garn* ati yw *Rescuing Darwin: God and evolution in Britain today* (2009). Fe'i hysgrifennwyd gan Nick Spencer a Denis Alexander, ar gyfer *Theos, the public theology think tank*, a daeth i'm meddiant drwy'r Feibl Gymdeithas (corff digon ceidwadol, gyda llaw). Ei phrif neges yw hyn: 'Darwin need not, indeed *should not* be caught in the crossfire of a philosophical or theological battle. Religion is not bad science, Genesis is not a primitive *Origin of Species*, and Darwinism does not necessitate atheism' (t. 46).



*John Tudno Williams*

*Llun a dynnwyd gan  
Delesop yr Hubble o  
lwch disglair yn y  
gofod*

Wrth gwrs, mater personol a phroffesiynol i Sharon King ei hun yw ei daliadau gwyddonol a'i gwrthwynebiad diwyro i Ddarwiniaeth, ac nid yw'n rhan o'm gorchwyl i yn hyn o lith i geisio'i darbwyllo fel arall. Ond credaf y dylwn geisio dangos bod ei syniadau am y Beibl, ac yn arbennig am yr hyn a ddywed rhannau o'r Beibl am y Creu, yn gyfeiliornus.

Cam dybryd â'r Beibl yw ei drin fel llawlyfr gwyddonol. Nid gwerslyfr gwyddonol ydyw ac nid rhyw fath o 'proto-science' sydd ynndo, ond datganiad o ffydd yn Nuw, ac yn achos penodau agoriadol Llyfr Genesis, ffydd yn Nuw fel Creawdwr cyrrau'r ddaear. Delio ag ystyr y mae'r adroddiad yn Genesis, a dyna'r gwahaniaeth rhwng crefydd a gwyddoniaeth a dynnodd y biologydd cyfoes Theodosius Dobzhansky: 'Science and religion deal with different aspects of existence ... One may say that these are the aspect of fact and the aspect of meaning.' Felly, gwerslyfr diwinyddol ydyw, a dylid ei barchu a'i ddefnyddio i'r pwrpas hwnnw.

Onid un o amcanion penodau agoriadol Llyfr Genesis oedd ceisio egluro gwahanol ffenomenâu yn y greadigaeth, a hynny ganrifoedd cyn bod ymchwil gwyddonol yn yr ystyr modern wedi cychwyn? Cam â'r Beibl yw ei orfodi i ateb cwestiynau nad oedd erioed wedi'i fwriadu i'w hateb.

Fel y dengys ysgrif Sharon King, mae llawer o Gristnogion ceidwadol yn dal i honni bod derbyn darlun Darwiniaeth o'r creu yn arwain at wadu gwirionedd y Beibl. Dadleuir ganddi, os ildiwch fodfedd ar ei eirwiredd, yna rydych mewn perygl o golli'r cyfan. Camgymeriad o'r mwyaf, yn fy marn i, yw honni'r fath beth. A, gyda llaw, byddai llawer o bobl a fyddai'n eu galw eu hunain yn efengylaidd, a hyd yn oed yn ffundamentalaidd, yn gwrthod y fath safbwynt eithafol. (Nid yw'r garfan Efengylaidd mor unol ei barn ar nifer o gredoau canolog ag y tybir yn aml.) Safbwynt cymharol ddiweddar ydyw hwn, un a ddatblygodd mewn adwaith, yn arbennig yn UDA, i'r feirniadaeth feiblaidd a ddaeth i rym mewn astudiaethau Cristnogol tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dylid nodi hefyd yn y fan hyn nad dyma oedd union safbwynt arweinwyr mawr Protestaniaeth, megis Luther a Calfin, nac ychwaith agwedd Iesu at ysgrythurau'r Hen Destament fel y dengys ei Bregeth ar y Mynydd,er enghraifft. Beirniadol oedd Paul yntau o sawl elfen mewn Iddewiaeth fel y'i mynegwyd yn yr Hen Destament.

## Os Mëts

- 1 Hydref: Swper Cynhaeaf  
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 22 Hydref: Hwyl a Sbri  
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- Hanner tymor Canolfan Awyr-agored Llain
- 2 Tachwedd Twm Siôn Cati  
Neuadd Tal-y-bont  
am 7 o'r gloch
- 19 Tachwedd: Hwyl a Sbri (2)  
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 3 Rhagfyr: Cerdyn a Charol  
Neuadd Tal-y-bont  
am 7 o'r gloch

Rhagfyr (dyddiad i'w gadarnhau):

Canu Carolau yng Nghartref  
Tregerddan ac yn Afallen Deg

Croeso i leuenctid oedran uwchradd

*Grŵp Help Llaw y Garn*  
*Operation*  
*Christmas Child 2009*



Daeth yn amser unwaith eto i baratoi bocsys sgidiau a'u llenwi ar gyfer Operation Christmas Child.

Rydym yn ffyddiog y cawn eich cefnogaeth eleni eto. Mae bocsys ar gael gan Eddie Jones yn ogystal â phamffledi gyda'r manylion i gyd.

Y dyddiad cau yw **11 Tachwedd** ond rydym yn barod i dderbyn unrhyw focsys llawn cyn hynny.

Shân Hayward  
(01970 828268)

Bethan Jones  
(01970 611502)



Plant cartref Little Oaks, Limpodo, yng ngogledd Affrica gyda theganau ac yn gwisgo capiau wedi eu gweu gan aelodau Grŵp Help Llaw'r Garn.

Mewn arolwg diweddar o ddwy fil o bobl canfuwyd mai dim ond 37% o bobl y Deyrnas Unedig sy'n credu bod damcaniaeth Darwin am esblygiad i'w derbyn 'heb unrhyw amheuaeth'. Beth, ynteu, mae'r gweddill yn ei gredu? Atebodd 32% eu bod yn derbyn y syniad o 'greadaeth' (*creationism*), sef bod Duw wedi creu'r byd yn ystod y deng mil blwyddyn diwethaf, a bod hanes y creu yn Llyfr Genesis yn ategu hynny. (Gyda llaw, bellach mae 44% o boblogaeth UDA, gwlad fwyaf ddatblygedig y byd, yn credu felly!) Yna, cred dros hanner y boblogaeth yn y syniad o 'fwriad synhwyrol' (*Intelligent Design*), h.y. y syniad nad yw esblygiad ynddo'i hun yn ddigonol ar gyfer egluro strwythurau cymhleth rhai pethau byw, ac felly bod angen ymyrraeth cynllunydd, sef Duw, ar rai adegau tyngedfennol yn y broses.



Bellach, daeth creadaeth yn bwnc llosg ym myd addysg a hawliodd rhai crefyddwyr y dylid ei ddysgu ynghyd â'r syniad o fwriad synhwyrol mewn gwersi gwyddonol yn yr ysgolion ochr yn ochr â syniadau Darwin. Ond polisi swyddogol yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yw na ddylid dysgu creadaeth na bwriad synhwyrol fel gwyddoniaeth: 'Most scientists agree that "it is educationally irresponsible to pretend that ... [creationism] deserves scientific discussion", ' medd Jeff Astley mewn ysgrif yn y cylchgrawn Anglicanaidd *Theology* (Gorff./Awst, 2009). A dywed ymhellach: 'Despite appeals to a "creation science" that claims scientific support for creationist views, much of the literature on creationism reveals little concern for scientific method or argument, and more closely resembles ideological polemic.'

Ac nid damcaniaeth wyddonol yw 'Intelligent Design' chwaith. Nid yw honni bod rhyw elfen mewn bywydeg wedi'i chynllunio yn golygu dim oni bai bod modd archwilio'r honiad hwn gydag arbroffion gwyddonol. Ond, yn ôl yr wybodaeth sydd gennyf i, does dim cyhoeddiadau gwyddonol gan y rhai sy'n arddel y safbwynt hwn. Mae'n debyg felly, fod y rhan fwyaf o fiolegwyr proffesiynol yn gwrthod creadaeth a'r syniad o 'fwriad synhwyrol' fel damcaniaethau boddhaol sy'n disoddi damcaniaeth esblygiad.



## Crefydd ac Esblygiad

Yn y rhifyn diwethaf o *Gair o'r Garn* cyhoeddwyd ymateb Sharon King i adroddiad Llinos Dafis am ddaliadau Darwinaidd disgynnydd i un o gyn-weinidogion y Garn, y gwyddonydd adnabyddus Steve Jones. Mae'n datgan yn ddiflewyn-ar-dafod nad oes modd cysoni derbyn damcaniaethau Darwin am esblygiad a chynnal ffydd Gristnogol heddiw.

Cyhoeddwyd ei *Origin of Species* union gant a hanner o flynyddoedd yn ôl yn 1859 ac yn aml ers hynny portreadwyd y ddadl rhwng Darwin a'i wrthwynebwyr crefyddol yn nhermau rhyfel rhwng gwyddoniaeth a chrefydd. Cefnogir y darlun hwn o frwydr rhwng y ddwy gan anffyddwyr cyfoes fel Richard Dawkins, awdur *The God Delusion*, sydd wedi gwerthu miloedd lawer o gopiau. Ei honiad sylfaenol yw fod syniadau Darwin am esblygiad wedi disodli'r angen am gredoau crefyddol un waith ac am byth. Ond dylid cofio nad oedd Darwin ei hun yn gysurus â'r darlun hwn o ryfel rhwng crefydd a gwyddoniaeth, a gwrthodai'r farn fod credu mewn esblygiad yn arwain yn anochel at anffyddiaeth. Ond, yn sicr, y duedd yn ddiweddar yw uniaethu Darwiniaeth ag atheistiaeth.

Sylwn yr un pryd ar ffenomen drawiadol, sef bod safbwynt ymosodol rhai fel Richard Dawkins, ar y naill law, a safbwynt Cristnogion tra cheidwadol fel Sharon King, ar y llaw arall, yn bwydo ar y syniad fod rhyfel yn anochel rhwng gwyddoniaeth a chrefydd.

'We have reached a situation in which it is often assumed that to be a Christian and to take the Bible seriously automatically entails rejection of Darwin and endorsement of creationism, and conversely that no reputable scientist can possibly be a Christian' (geiriau Martin Wellings yn rhifyn Ebrill eleni o *Epworth Review*, sydd wedi'i neilltuo i drafodaethau ar Darwin a chrefydd).

Nodwedd o'r oes hon yw creu 'soundbites' eithafol, ac mae gan y ddau eithaf hyn ddiddordeb mewn creu'r fath ddarlun camarweiniol.

Nid felly y mae wedi bod bob amser mewn hanes: e.e. roedd Williams Pantycelyn yn llawn chwilfrydedd am ddarganfyddiadau gwyddonol ei gyfnod am y cread, yn arbennig mewn seryddiaeth, gan fynegi hynny yn ei gerdd fawr 'Golwg ar Deyrnas Crist'. Felly hefyd John Wesley, a oedd yn ymddiddori mewn damcaniaethau gwyddonol a'r datblygiadau diweddaraf ym myd meddygaeth.

## Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth



Thema maes llafur yr ysgol Sul (a'r Dosbarth Beiblaidd) am eleni yw *Cwestiynau Mawr Bywyd*, ac fe baratowyd y gwrslyfr gan yr Athro Euros Wyn Jones.

Mae Efengyl Iesu'n ein herio ac yn ein cwestiynu o hyd ac nid yw ei atebion ef at ein dant. Dyna yw natur yr Efengyl bob amser – ein herio a'n hysgwyd allan o'n hatebion slic, er mwyn gweld pethau fel mae Iesu'n eu gweld, yn hytrach nag fel yr ydym ni am iddynt fod. Ceisiwyd cyflwyno her Efengyl Iesu mewn saith cwestiwn sylfaenol:

- ◆ Pwy yw Duw?
- ◆ Beth yw dyn?
- ◆ Pwy yw Iesu?
- ◆ Beth a wnaeth Iesu?
- ◆ Beth a wnawn ni?
- ◆ Pa fodd mae tyfu yn y ffydd?
- ◆ Pa fodd mae gwasanaethu?

Dyma'r amserau a'r lleoliadau:

13 Hydref	Y Garn	2 o'r gloch
20 Hydref	Rehoboth	7 o'r gloch
27 Hydref	Y Garn	2 o'r gloch
3 Tachwedd	Capel Seion	7 o'r gloch
10 Tachwedd	Y Garn	2 o'r gloch
17 Tachwedd	Y Garn	7 o'r gloch
24 Tachwedd	Y Garn	2 o'r gloch
1 Rhagfyr	Y Gerlan	7 o'r gloch
8 Rhagfyr	Y Garn	2 o'r gloch
15 Rhagfyr	Capel Madog	7 o'r gloch

Noder y bydd y wers a gyflwynir yn y prynhawn yn y Garn yn cael ei hailgyflwyno yr wythnos ganlynol yn y nos.

**Taer erfynnir am eich presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn – mae'r Bugail yn paratoi'n drylwyr ar ein cyfer ac mae'n haeddu ein cefnogaeth. Croeso cynnes i bawb.**

## ‘Te yn yr Ardd’

Ffagl Gobaith  
Stryd y Popty  
Aberystwyth

Gair i ddiolch o galon i Grŵp Help Llaw Capel y Garn, ac yn wir i bawb arall a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant ‘Te yn yr Ardd’ ym Mhantyperan. Fe lwyddoch i godi swm enfawr o arian a fydd yn gymaint o help i dalu am gadair arbennig Huw. Rwy’n falch o ddweud bod y gadair wedi cyrraedd erbyn hyn, a’r holl addewidion a gawsom am arian wedi sicrhau y bydd y cyfan o’r gost wedi ei chlirio’n fuan iawn.

Diolch i chi i gyd am eich gwaith, ein haelioni a’ch ysbryd Cristnogol.

Yn gywir  
*Dana Edwards*



Cyflwynwyd y swm  
anrhydeddus o  
£2,253.26  
i Ffagl Gobaith.

Diolch o galon i BAWB  
a fu’n rhan o’r ymgyrch.

*Bethan Jones*

## Capel Seion

### PERERINDOTA

Ers llawer blwyddyn bellach, mae cynulleidfa Seion yn ymweld â llefydd o ddiddordeb crefyddol yn ystod Suliau Awst. Bu’r pererindod cyntaf eleni ar 23 Awst yn dilyn hanes y Crynwyr yn ardal Dolgellau. Tabor, sef tŷ cwrdd y Crynwyr yn yr ardal am gan mlynedd yn yr ail ganrif ar bymtheg a’r ddeunawfed ganrif, oedd ein cyrchfan gyntaf. Llecyn delfrydol, tawel a hardd uwchben Dolgellau, felly does ryfedd fod y Crynwyr wedi ei ddewis fel man cyfarfod. Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, fu’n amlinellu natur defosiwn, credoau, aberth a dioddefaint y Crynwyr yn yr ardal cyn iddynt ymfudo i Bensylfania. Darllenodd ddarnau o nofel *Y Stafell Ddirgel*, Marion Eames, a chyflwyno myfyrdod tawel a dwy salm ar ffurf emynau o waith Morgan Llwyd i’w canu i gyfeiliant yr organ fach yno. Wedyn, ymwelwyd â Chanolfan y Crynwyr ar sgwâr Dolgellau, sydd yn olrhain eu hanes trwy gyfrwng dogfennau, lluniau a fideo a luniwyd gan Marion Eames.

Bu’r ail bererindod ar 30 Awst yn llawer nes adref, sef Capel Penllwyn, Capel Bangor, i ddathlu cyfraniadau dau Gymro enwog iawn a oedd â chysylltiadau agos â’r ardal, sef Ieuan Gwyllt a Lewis Edwards. Eleni dethlir cant a hanner o flynyddoedd ers pan gyflwynodd Ieuan Gwyllt *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (1859) i’r genedl a dethlir dau ganmlwyddiant geni Lewis Edwards (1809–1887), sef pennaf ysgolhaig Cymru’r 19eg ganrif. Mewn gwasanaeth o addoliad a diolchgarwch am fywydau’r ddau cyflwynwyd darlleniadau am Ieuan Gwyllt o glasur y Parch D. J. Evans, *Hanes Capel Seion*; canwyd emynonau ac emynau o’i waith, ac fe gafwyd unawdau o ddwy o’i drefniannau o emynonau Seisnig. Yn seiliedig ar lyfr D. Densil Morgan, *Lewis Edwards* (yn y Gyfres Dawn Dweud, GPC 2009), cyflwynodd John Tudno hanesion am weithgaredd a dylanwadau Lewis Edwards, yn bennaf o fewn cylch yr ardal leol.

## *Cymdeithas Rehoboth*



Unwaith eto cawsom ddiwrnod braf iawn ar gyfer ein gwibdaith flynyddol ar ddydd Sadwrn, 12 Medi. Ar ôl cychwyn yn fore mewn heulwen braf, fe gyrhaeddwyd Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts yn Rhosgadfan. Cawsom groeso cynnes yno gyda chwpanaid derbyniol o de neu goffi yn ein haros. Ar ôl gweld ffilm fer am hanes a gwaith Dr Kate Roberts, cawsom ein tywys o amgylch Cae'r Gors, sef cartref ei phlentyndod. Mae'r tŷ a'r beudy, a oedd bron yn furddun ar un adeg, wedi eu hadnewyddu a'r dodrefn yn y tŷ yn debyg i'r hyn oedd yno yn nyddiau ieuencid yr awdures. Mae'r holl waith caled a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf wedi sicrhau bod yna gofeb haeddiannol i un o lenorion gorau ein cenedl yn Rhosgadfan erbyn hyn. Yn y prynhawn cawsom ein tywys o amgylch rhai o bentrefi'r ardal a ddaeth i fodolaeth oherwydd y chwareli cyfagos, gan glywed hanesion difyr a gweld cartrefi rhai o enwogion y fro.

Ar ddiwedd y prynhawn aethom am dro i Gwm Pennant, ac yno roedd y llongyddwch, y golygfeydd godidog a'r tywydd braf yn cadarnhau sut y daeth Eifion Wyn i'r casgliad mai 'cwm tecaf y cymoedd yw'. Yn goron ar ddiwrnod cofiadwy cafwyd pryd o fwyd ardderchog yng ngwesty'r Afr ger Garndolbenmaen, a hoffem ddiolch i bawb a drefnodd y cyfan ar ein rhan. Yr unig gwmwl a daenwyd dros y diwrnod oedd y ffaith i Mai Leeding gael anffawd a chael ei chludo i Ysbyty Gwynedd lle derbyniodd driniaeth. Pob dymuniad da iddi am adferiad buan.

*Carys Briddon*



Huw Edwards a'r Parch Wyn Morris yng ngardd Panytperan ar achlysur 'Te yn yr Ardd', 25 Gorffennaf

## **Gafael**

*Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd ...*

Er bod ein ffydd yn gollwng  
Ar aml i siwrne drom,  
Wrth gasglu yr amheuon,  
Dal ati wnawn drwy'r siom.

*Megis yn y Nef, felly ar y ddaear hefyd ...*

Mor anodd gennym gredu  
Bod nefoedd ar y llawr  
Drwy anfon ein gweddïau  
Dros ffin y gwagle mawr.

*Fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr ...*

Ni'n grwgnach am gynilion  
Sy'n llifo i lawr y draen  
A disgwyl gweld y banciwr  
A'i draed yn llusgo siaen.

*Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg ...*

Ar droeon enbyd bywyd  
Rwyf weithiau'n troi fy mhen  
Rhag gweled gwrid yr afal  
Ar waharddedig bren.

*Y nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd ...*

Ond am fod geiriau'r Iesu  
Fel clwyfau'n methu cau,  
Mae'r gwaed o'r weddi'n rhedeg  
Drwy'r oesau i'n cryfhau.

*Vernon Jones*

## **Diolch am y cyfarchion**

Dymuna Vera a Bryn Lloyd, Cwm Eithin, Maes Ceiro, ddiolch yn gynnes iawn am y nifer fawr o gardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn dymuno gwellhad i Vera tra bu dan lawdriniaeth yn ysbyty Treforys ym mis Gorffennaf, ac yna ym Mronglais wedi hynny.

Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn y cyfarchion oll sy'n gymorth mawr i Vera i wella.

## **Y Gerlan**

*Pen-blwydd Arbennig*

Hydref diwethaf cawsom y pleser o ddymuno Pen-blwydd Hapus i Islwyn Jones yn 90 oed. Paratowyd parti iddo yn y festri, a bu'r achlysur yn fwynhad pur. Cafwyd cyfle eto i fwynhau parti tebyg gan fod Evelyn ei briod hithau yn 90 ar 13 Awst. Cynhaliwyd y parti ar 25 Gorffennaf gan y byddai cymaint i ffwrdd yn ystod Awst. Cyflwynodd ei Gweinidog Docyn Anrheg ynghyd â blodau gan ddymuno yn dda iddi, ac ategwyd hynny gan y Parch. Richard Lewis. Rhaid diolch am roddion o ddanteithion ac am y gweini wrth y byrddau. Yn ddiweddar cafodd Evelyn driniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Bronglais, a dymunwn adferiad buan iddi.

*Cymorth Cristionogol*

Ym Mehefin cynhaliwyd Bore Coffi a Stondinau yn Neuadd y Pentre er budd yr uchod. Bu aelodau Eglwysi St Mathew, Gerlan, a'r Catholigion yn brysur yn paratoi a gwerthu nwyddau, a gwnaed elw o £382. Gwnaed casgliad o £110.50 yn Oedfa Undebol Cymorth Cristionogol a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn codwyd £614, a'i anfon i'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Diolch i bawb am eu haelioni a'u cymorth.

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Erddyn James / Vernon Jones*

- 2 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
'Hwyl y Nadolig' – Ruth Jên
- 6 Dr Rhidian Griffiths – oedfa'r bore  
Parch Nicholas Bee – oedfa'r hwyr
- 7 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth  
yn festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 11 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Dathlu'r Nadolig' – Cymdeithas Gymraeg y Borth
- 13 Oedfa Nadolig y Plant am 10 o'r gloch
- 20 Parch J E Wynne Davies – oedfa'r bore  
Bugail – oedfa'r hwyr
- 25 Bore'r Nadolig  
Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 9 o'r gloch
- 27 Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail – bore yn unig
- 31 Gwynos i groesawu'r Flwyddyn Newydd  
dan arweiniad y Bugail am 11.30 p.m.

Anfonwn ein cofion at nifer o aelodau'r eglwys nad ydynt yn gallu ymuno gyda ni i addoli ar y Sul ar hyn o bryd – rhai mewn ysbytai neu mewn cartref i'r henoed ac eraill gartref ar eu haelwyddydd.

O'u cofio o'th flaen  
gweddiwn ar iddynt dy deimlo di yn agos  
a chanfod cysur a nerth yn dy gwmni.

*(E. ap N. Roberts)*

## Hydref

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

- 3 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Ceredigion  
a Gogledd Penfro  
Capel Woodstock, sir Benfro, am 2.30 o'r gloch
- 4 Parch M J Morris
- 7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
Cwrdd diolchgarwch yng ngofal y Barch Judith Morris
- 11 Oedfa ddiolchgarwch yr ofalaeth  
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch  
Gwneir casgliad at Gyngor yr Ysgolion Sul a'r NSPCC
- 16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Cymeriadau a Hiwmor'  
Y Parch Goronwy Evans, Llambod
- 18 Bugail  
Oedfa gymun yn y bore
- 22 Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem am 7 o'r gloch  
Pregethir gan y Parch. Cen Llwyd
- 25 Parch Wiliam Owen  
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

### *Cymdeithas Lenyddol y Garn*

Llywydd: Y Parch Wyn Morris  
Cadeirydd: Mrs Mary E Thomas  
Is-gadeirydd: Mr Gwynant Evans  
Ysgrifennydd: Mrs Mary Thomas  
Trysorydd: Mrs Bet Evans

Mae'r Gymdeithas yn cwrdd  
ar y drydedd nos Wener yn y mis, am 7.30 p.m.

## Cyfarchion

Dymuniadau gorau i Mrs Linda Jones ar ei hymddeoliad o'i swydd fel athrawes yn ysgol Rhydypennau.

Llongyfarchiadau calonnog i:

Alun ac Enid Jones, ar enedigaeth wŷr ac wyres, efeilliaid bach, Iolo a Branwen, a aned i Garmon a Lowri ar 12 Gorffennaf;

Delyth a Rheinallt Morgan ar enedigaeth merch fach, Gwawr Eluned, ar 24 Gorffennaf, chwaer i Glesni a Teleri;

Nia a Geraint Williams, ar enedigaeth mab bach, Gruffydd Siôn, ar 27 Gorffennaf, brawd i Lleucu Siôn;

Vernon Jones ar ennill cystadleuaeth y delyneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol;

Carwen a Chris Jones ar enedigaeth mab bach, Tomos Llywelyn, brawd i Lois Medi, ar 8 Awst, wŷr cyntaf Tom a Beryl Hughes;

Lowri ac Owain Schiavone ar enedigaeth mab bach, Llew Ifan, ar 21 Awst, wŷr cyntaf Delyth Jones;

Gwyneth Keyworth ar ei hymddangosiad yn y ddrama *Framed*, a ddarlledwyd ar deledu BBC1 nos Lun, 31 Awst, a phob dymuniad da iddi yn ei gyrfa fel actores;

Iwan Williams ar ei ganlyniadau ardderchog yn ei arholiadau TGAU;

Dilys a Vernon Jones ar enedigaeth wyres, Ela Grug, merch fach i Non a Gerwyn, a aned ar 2 Medi;

Ann Evans, Caergywydd (gynt), ar ei phriodas ag Ian Elias yn Efrog Newydd, ddydd Gwener, 4 Medi.

### Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Llywydd:	Y Barch Judith Morris
Cadeirydd:	Mrs Gwenda Edwards
Ysgrifenyddes:	Mrs Shân Hayward
Is-ysgrifenyddes:	Mrs Nans Morgan
Trysorydd:	Mrs Llinos Dafis

#### Aelodau'r Pwyllgor:

Miss Kathleen Lewis	Mrs Meinir Lowry
Mrs Gwenan Price	Mrs Meinir Roberts
Mrs Dwysli Peleg-Williams	

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

- 1 Steffan Jones – oedfa'r bore  
Rhodri Glyn – oedfa'r hwyr
- 4 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch  
'Bywyd ar ôl ymddeol' – Mrs Dilys Jones
- 8 Parch Irfon Evans – oedfa'r bore  
Bugail – oedfa'r hwyr
- 15 Oedfa Sul yr Urdd yn y bore dan arweiniad y Bugail  
Oedfa gymun ym Methlehem yn y nos – Bugail
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Eich pleidlais: tu hwnt i'r groes'  
Ms Rebecca Williams, Goginan
- 22 Parch Andrew Lenny
- 27 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch
- 28 Ffair y Garn, dan ofal y Chwiorydd  
Neuadd Rhydypennau, 10–12 o'r gloch
- 29 Hywel Slaymaker  
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

### Gair gan y Trysorydd

Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich cyfraniadau mor fuan â phosib eleni eto er mwyn gallu cau'r llyfrau'n brydlon ddiwedd y flwyddyn.

Gan fod rhai costau'n cael eu talu o'r coffrau'n rheolaidd drwy'r flwyddyn, mae croeso i chi gyfrannu ar unrhyw adeg – a gellir gwneud hynny'n hwylus drwy archeb banc.

Ffordd ddefnyddiol arall o ychwanegu at eich cyfraniad yw llenwi ffurflen Cymorth Rhodd (Gift Aid), sy'n golygu bod yr eglwys yn cael ad-daliad treth ar eich cyfraniad. Mae'r ffurflenni ar gael oddi wrth Bryn Lloyd, yr Ysgrifennydd Ariannol.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth.

*Mary Thomas*